**Pwyllgor Busnes** **BC326-01(Terfynol)**

**COFNODION Y CYFARFOD**

**Dyddiad:** 13 Tachwedd 2001
**Amser:** 9 a.m.
**Lleoliad:** Ystafell A3.13

**Yn bresennol:** John Marek, y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Andrew Davies, y Trefnydd
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
William Graham, Rheolwr Busnes y Blaid Geidwadol
Peter Black, y Democratiaid Rhyddfrydol

Paul Silk, Clerc y Cynulliad
David Lambert, Ymgynghorwr Cyfreithiol Swyddfa'r Llywydd
Marie Knox, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau (eitem 6 ar yr agenda)
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, YP/y Trefnydd
Adrian Green, Ysgrifenyddiaeth y Siambr
Alun Gruffudd, YP/y Dirprwy Lywydd
Nerys Arch, Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol (eitem 4 ar yr agenda)

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

Dim un

## 2. Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol

### (i) 30 Hydref 2001 - BC314-01 (Terfynol)

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf derfynol a chytunwyd y dylid eu cyfieithu'n barod i'w cyhoeddi. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth**

### (ii) 6 Tachwedd 2001 - BC318-01 (Drafft)

2.2 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar ffurf ddrafft. Awgrymwyd un newid i'w ymgorffori yn y fersiwn terfynol ar gyfer ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf.
**Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth**

## 3. 3. Materion yn codi (6 Tachwedd 2001 - BC318-01)

3.1 **Paragraff 3.1** Dywedodd y Trefnydd y byddai'r Cabinet fel arfer yn ymateb i adroddiadau pwyllgor trwy ddatganiad mewn Cyfarfod Llawn. Nododd Jocelyn Davies a William Graham gyda gofid.

3.2 **Paragraff 4.8** Dywedodd Nerys Arch na chafodd y Rheoliadau Gwastraff Arbennig (Diwygio) eu rhoi ar y rhyngrwyd ar amser oherwydd esgeulustod gweinyddol. Ni ddywedwyd bod angen y broflen ar frys, ac o'r herwydd, cafwyd problemau amseru. Fodd bynnag, cymrwyd camau i rybuddio'r rheiny y byddai'r offeryn wedi effeithio arnynt. Gofynodd y Dirprwy Lywydd pam yr oedd angen Gweithdrefn Weithredol ar y rheoliadau hyn a hefydar Reoliadau Cyfyngiadau Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) a gafodd ei wneud yn ddiweddar. Sicrhaodd y Trefnydd y Pwyllgor bod y Cabinet yn ymwybodol y dylid ond defnyddio'r Weithdrefn Weithredol os oedd gwir angen. Cytunodd Nerys Arch i ysgrifennu canllaw ar ddefnyddio'r Weithdrefn Weithredol yn y ddau achos. **Gweithredu: Nerys Arch.**

3.3 **Paragraff 7.6** Dosbarthodd y Trefnydd nodyn yn y cyfarfod i amlinellu rhesymau Jane Davidson, Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, am fod yn absennol ar 29 Tachwedd, pan fydd i fod i ateb cwestiynau llafar. Hi fydd cynrychiolydd y DU mewn cyfarfod o Gyngor y Gweinidogion ar Faterion Pobl Ifanc ym Mrwsel. Dywedodd y Trefyndd ei fod yn fraint i un o Weinidogion y Cynulliad gael ei gwahodd i arwain dirprwyaeth o Weinidogion y DU ac roedd y cais i ail amseru ei sesiwn gwestiynau o ganlyniad i'r amgylchiadau eithriadol hyn. Sylweddolodd Jocelyn Davies bwysigrwydd yr ymweliad ond nododd bod Rheol Sefydlog 6.3A wedi cael ei chreu ar gyfer absenoldeb anochel Gweinidog. Penderfynwyd atal Rheol Sefydlog 6.3A ar yr achlysur hwn yn ei habsenoldeb ond dywedodd yn y dyfodol y dylai Gweinidog arall sefyll yn ei lle. Dywedodd William Graham bod y Datganiad Busnes Drafft yn awgrymu bod diwrnod ar gyfer ateb y cwestiynau Addysg eisoes wedi cael ei ail-drefnu ac angen cael ei gymeradwyo gan y Cynulliad. Dywedodd yr Is-Lywydd na ddylid ystyried yr enghraifft hon fel cynsail.

## 4. Is-ddeddfwriaeth

4.1 Rhoddodd y Pwyllgor Busnes ystyriaeth i bapurau BC320-01 i BC323-01 a oedd yn rhoi cyngor ar drin y pedair eitem canlynol o is-ddeddfwriaeth ddrafft:

- Rheoliadau Cefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001 (BC320-01)

- Rheoliadau Cefn Gwlad (Mapiau Drafft) (Cymru) 2001 (BC321-01)

- Gorchymyn Enseffalopathi Sbyngffurf Defaid a Geifr (Iawndal) (Diwygio) (Cymru a Lloegr) 2001 (BC322-01)

- Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cyfyngu ar y Defnydd ar Beledi Plwm)(Cymru) 2001 (BC323-01)

4.2 BC320-01 a BC321-01

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr argymhelliad i beidio â rhoi'r ddwy eitem o ddeddfwriaeth ddrafft ger bron pwyllgor pwnc ac y dylid dilyn y drefn safonol.

4.3 Mynegodd yr Is Lywydd bod y rhesymau a roddwyd yn y Memorandwm

Esboniadol am beidio â chynnal arfarniad rheoliadol yn annigonol. Dywedodd hefyd bod y sylw nad oedd goblygiadau ariannol i'r Cynulliad Cenedlaethol yn awgrymu na roddwyd ystyriaeth i'r goblygiadau ariannol i fusnesau ac i eraill. Dywedodd David Lambert fod y goblygiad bod gwneud y rheoliadau yn ofyn statudol o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ac felly nid oedd angen arfarniad rheoliadol ac roedd yn annigonol o fewn ystyr Adran 65 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Cytunodd y Pwyllgor i ohirio'r ddau reoliad drafft i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf er mwyn Gweinidogion allu esbonio'r rhesymau am beidio â chynnal arfarniad rheoliadol. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth**

4.4 BC322-01

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr argymhelliad y dylai'r gorchymyn drafft ddilyn y weithdrefn gyflymach.

4.5 Dywedodd David Lambert nad oedd angen cynnal arfarniadau rheoliadol ar gyfer gorchmynion a wnaed o dan Reol Sefydlog 23 Adran 3 felly nid oedd angen yr esboniad yn y Memorandwm Esboniadol yn egluro nad oedd angen arfarniad rheoliadol. Awgrymodd hefyd y gallai'r ddalen esboniadol egluro o dan ba adran yn Rheol Sefydlog 23 y gwneir y gorchymyn. Nid yw pob gorchymyn Rheol Sefydlog 23 yn cael eu rhoi ger bron pwyllgor pwnc. Nododd y Trefnydd farn Jocelyn Davies y carai ei phlaid drafod y gorchymyn.

4.6 BC323-01

Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr argymhelliad i beidio â rhoi'r rheoliadau drafft hyn ger bron pwyllgor pwnc ac i ddilyn y drefn arferol.

4.7 Dywedodd y Dirprwy Lywydd bod y Memorandwm Esboniadol yn dweud bod arfarniad rheoliadol wedi'i gynnal a'i fod yn amgaeedig, ond nid oedd hynny'n wir o gwbl. Cytunodd y Pwyllgor i ohirio ystyried y rheoliadau drafft tan y cyfarfod nesaf pan fyddai'r arfarniad rheoliadol ar gael. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth**

## 5. Cyngor i'r Cynulliad ar Weithdrefnau

- **Trefniadau Toriadau 2002 (BC306-01)**

5.1 Trafodwyd yr obsiynau ar gyfer toriadau 2002 gan y Pwyllgor.

Dywedodd y Trefnydd, William Graham a Peter Black eu bod o blaid Opsiwn 1 ond dywedodd Jocelyn Davies bod yn well gan ei phlaid hi Opsiwn 3. Cynigiodd y Trefnydd bod y Rheolwyr Busnes yn cyfarfod ar wahân i geisio dod i gytundeb. Penderfynwyd gohirio penderfynu ar doriadau 2002 tan gyfarfod yr wythnos nesaf.

5.2 Dywedodd y Dirprwy Lywydd y dylid ceisio am doriad o bedair wythnos dros y Nadolig er mwyn i'r holl staff gael digon o gyfle i gymryd eu gwyliau. Nododd Marie Knox y byddai'r angen am doriad o bedair wythnos dros y Nadolig hyd yn oed bwysicach os penderfynir cwtogi ar hyd toriad yr haf.

## 6. Pwyllgorau

Dim.

## 7. Busnes y Dyfodol

- **Busnes yr Wythnos Hon (BC324-01)**

7.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried papur BC324-01 a oedd yn amlinellu gwaith y Cynulliad am yr wythnos.

7.2 Dywedodd y Trefnydd mai'r unig ychwanegiad at fusnes Dydd Mawrth fyddai datganiad gan y Prif Weinidog ar y ffrwydriad yng ngwaith Corus, Port Talbot. Ddydd Iau, byddai datganiad ychwanegol gan Jane Hutt, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Gymdeithas y Plant yng Nghymru. Nododd Jocelyn Davies na fyddai trafod o gwbl ddydd Iau.

**Datganiad Busnes Drafft (BC325-01)**

7.3 Bu'r Pwyllgor yn ystyried y datganiad busnes drafft (BC325-01).

7.4 Dywedodd y Trefnydd bod y cynnig i gymeradwyo Gorchymyn Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 (Cychwyniad Rhif 2) (Cymru) 2001 o dan Reol Sefydlog 24 wedi'i dynnu yn ôl. Er hynny, byddai'r cynnig i gymeradwyo Cod Ymddygiad AAA diwygiedig drafft yng Nghymru yn parhau. Yn ogystal â'r busnes i'w drafod ddydd Iau, 6 Rhagfyr, byddai yna gynnig i gymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig Rhif 9 ar Blant ar eu Pennau eu Hunain sy'n Ceisio Nodded.

7.5 Holodd Jocelyn Davies ynghylch y drafodaeth am Roi Cymunedau'n Gyntaf a oedd wedi ymddangos ar Ragolwg gynharach. Dywedodd Marion Stapleton bod y ddadl wedi'i thynnu yn ôl yn Natganiad Busnes yr wythnos ddiwethaf.

7.6 Cyngor y Pwyllgor i'r Trefnydd ynghylch trefniadaeth busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnosau'n cychwyn Dydd Mawrth 20 Tachwedd, dydd Mawrth 27 Tachwedd a dydd Mawrth 6 Rhagfyr, oedd y dylai fynd yn ei blaen fel ag a drefnwyd.

## 8. Materion a gyfeiriwyd gan y cyfarfod llawn

Dim

## 9. Adolygu Rheolau Sefydlog

Dim

## 10. Dyfarniadau'r Llywydd

Dim

## **11. Unrhyw fater arall**

11.1 Dywedodd William Graham ei fod yn ofidus bod y Swyddfa Gyflwyno wedi trosglwyddo'r cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid wedi'u trosglwyddo i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau. Gofynnodd y Dirprwy Lywydd iddo am fwy o fanylion er mwyn i'r swyddogion allu ymchwilio i'r mater.
**Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth.**

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**